

**Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA  
CYTUNDEB GWEITHIO RHWNG BUSNES A BUSNES**

17 / 03 / 2019

Security & Identity Solutions Ltd  
29 Alexandra Road, Sebastopol  
Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 5BJ  
01495 757153

[Info@spectrumpositive.co.uk](mailto:Info@spectrumpositive.co.uk)

Yn masnachu fel SpectrumID, a Spectrum Positive.

Rydym yn gweithredu fel "Proseswyr Data"

Rydym yn Siop Ar-lein ac yn Fiwro Cardiau Plastig.

SpectrumID [www.spectrumid.co.uk](http://www.spectrumid.co.uk) yw'r siop

Spectrum Positive [www.spectrumpositive.co.uk](http://www.spectrumpositive.co.uk) yw'r Biwro Cardiau Plastig.

Diben y ddogfen hon yw darparu cytundeb gweithio rhwng y partïon ynghylch cynhyrchu Cardiau Adnabod Ffotograffig i aelodau staff.

Mae'r gwaith i brosesu'r data sy'n dod i law yn cael ei wneud o fewn saith diwrnod ar ôl i'r data ddod i law.

Bydd y data yn cael ei ddefnyddio wrth gynhyrchu "Cerdyn Adnabod Ffotograffig".

Y math(au) o ddata personol a all gael eu prosesu:

- Enw
- Disgrifiad Swydd
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Dyddiad Geni
- Rhif Ffôn
- E-bost
- Rhif y contract
- Cyfeiriad y cwmni
- Llofnod
- Dyddiad y daw i ben
- Delwedd ffotograffig o'r unigolyn

Prosesir y data mewn perthynas ag aelodau staff ac unigolion y mae arnynt angen ID Ffotograffig fel rhan o'u gofynion gwaith.

Dylai'r "Rheolwr Data" ddarparu'r holl wybodaeth mor gywir â phosibl, o ran hawliau'r unigolion mewn perthynas â'r GDPR.

Yn rhinwedd ein swydd fel y "Prosesydd Data", byddwn yn gweithredu yn unol â gofynion y "Rheolwr Data" o dan bob amgylchiad.

Mae'r personél i gyd yn cadw at ofynion y GDPR.

Yn rhinwedd ein swydd fel y "Prosesydd Data" rydym yn cadw at brosesau diogelu a phrosesau amgryptio data.

Byddwn ni fel y "Prosesydd Data" yn helpu'r "Rheolwr Data" i ddelio â cheisiadau gan destunau'r data, delio â thresseddau data a chynnal asesiadau effaith.

Yn rhinwedd ein swydd fel y "Prosesydd Data" byddwn yn dileu neu'n dychwelyd yr holl ddata sy'n cael ei gadw gennym pan ofynnir inni wneud hynny, neu pan fydd y gofyniad i ddefnyddio'r data yn dod i ben. Byddwn yn darparu unrhyw wybodaeth y mae'r "Rheolwr Data" yn gofyn amdani i ddangos ein bod yn cydymffurfio â'r GDPR pan ofynnir inni wneud hynny.

Yn rhinwedd ein swydd fel y "Prosesydd Data", nid ydym yn is-gontractio unrhyw agwedd ar y broses ddata i unrhyw is-gontractwr heb ganiatâd ysgrifenedig y rheolwr data.

Rydym yn derbyn data mewn amryw o ffyrdd:

E-bost, Post, Ffôn, Delweddau, Testun,

Ar ôl inni gael y data, caiff ei fewnbynnu i'r feddalwedd gynhyrchu, sydd hefyd yn cynnwys **cronfa ddata**. Gall y "Rheolwr Data" nodi a yw'n gofyn bod y data i gael ei gadw yn y gronfa ddata am gyfnod amhenodol er mwyn cynhyrchu rhagor o gardiau ar wahanol adegau.

Drwy lofnodi'r cytundeb hwn, mae'r "Rheolwr Data" yn rhoi caniatâd i ddata a ddarperir gael ei brosesu wrth gynhyrchu Gardiau Adnabod Ffotograffig.

**Rhaid i'r ddogfen hon gael ei llofnodi a'i dychwelyd cyn i gardiau "Adnabod Ffotograffig" gael eu cynhyrchu.**

Os hoffech adael adolygiad Google o'n gwasanaethau, ewch i Google Maps "SpectrumID" (Review) <https://goo.gl/maps/jyxhdMGLKbk>

Prosesydd Data:

Dennis J Ricketts (Security & Identity Solutions Ltd)

Rheolwr Data:

Dyddiad:

---

